

Cofion a Chyfarchion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Gyda thristwch y daeth y newydd ddechrau mis Medi am farwolaeth Mrs Bessie Owens (Cefn Berain), un oedd bob amser yn siriol ac yn werthfawrogol. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i theulu, gan weddio y bydd Duw yn dda wrthynt yn ystod y dyddiau hyn. Yr un modd, siom enbyd oedd clywed am farwolaeth Arwyn T. Davies (Llansannan). Er nad oedd Arwyn wedi mwynhau iechyd ers peth amser, eto daeth y diwedd yn ddisymwth iawn. Cafwyd ei wasanaeth fel blaenor am 42 o flynyddoedd, yn gyntaf yng Nghapel Horeb ac yna yn Eglwys Unedig Llansannan pan fu i'r ddwy eglwys uno yn 2002, a bu'n ffyddlon a gweithgar ar hyd y blynyddoedd. Diolchwn amdano a chyflwynwn Marian a'r plant a'u teuluoedd i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi nerth a chynhaliath Duw ei hun yn ddigon y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion at Maria Jones (Groes) a Rhiannon Evans (Llansannan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Ceinlys M. Jones (Llansannan) fu yn yr ysbyty ond sydd wedi cael dod adref erbyn hyn. Cyflwynwn y tair ohonynt, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal, ac yn eu hiacháu.

Longyfarchiadau i Manon Ll. Jones (Hiraethog) a Huw ar enedigaeth merch, Ani Jên, chwaer fach i Alun Caradog. Diolchwn i Dduw amdani a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

Longyfarchiadau hefyd i Ifor ac Edna Ellis (Groes) ar ddathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol a phob dymuniad da am flynyddoedd lawer eto o iechyd a hapusrwydd.

Rhaglen Cymanfaoedd Canu 2019-20

Os hoffech gael copi o'r Detholiad ar gyfer 2019-20 (Hen Nodiant a/neu Sol-ffa), rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul (neu i Mair) **erbyn dydd Sul, Medi 29^{ain}**, os gwelwch yn dda. Pris: £1.60.

Penwythnos Cerdded – Medi 27^{ain}-28^{ain}

Mae Coleg y Bala wedi trefnu penwythnos o gerdded, cymdeithasu a chyfle i annog ein gilydd. Mae'n benwythnos i bobl a phlant o bob oed, yn deuluoedd ac unigolion.

Dydd Gwener: Rhan o daith Mari Jones o Dolfeili, cyn dychwelyd i Goleg y Bala am swper blasus a noson o fawl a chymdeithas.

Dydd Sadwrn: Dringo'r Arenig – Cychwyn gyda brecwast mawr, addoliad a gair gan Arwel Jones. (Manylion llawn ar y poster sy'n y capel, ar wefan y Coleg neu trwy gysylltu â Mair.) Archebwch eich lle ar y wefan www.colegybala.org neu ffoniwch 01678 520565 i gael ffurflen bapur.



Llais Bro Aled

Medi 15^{fed} a'r 22^{ain}, 2019

DILYNWCH NI AR TWITTER:

@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon ar draws Bro Aled heddiw. Dyma gyfle o'r newydd i ni foli'r Arglwydd gyda'n gilydd ac i ofyn fel y Salmydd ar i Dduw fod 'yn graig i mi gysgodi tani – yn gaer lle bydda i'n hollol saff!' (Salm 71:3 Beibl.net)

Wrth i ni wneud hynny, rydym am gofio yn ein gweddïau am y teuluoedd yn ein plith sydd mewn profedigaeth, ac am longyfarch hefyd y nifer o blith y Fro a dderbyniodd Fedal Gee am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul ym Mangor ddydd Sadwrn (Medi 14eg).

Ganol yr wythnos ddiwethaf daeth gŵr dieithr i gnocio ar ddrws Heulfryn yn cynnig insiwleiddio'r tŷ yn rhad ac am ddim! Wrth i'r sgwrs fynd yn ei blaen cofiais fy mod wedi sôn am gynigion 'too good to be true' mewn pregethau yn y gorffennol, ond eglurodd y dyn fod y llywodraeth yn cynnig grantiau i sicrhau fod cartrefi ledled Prydain yn cael eu hinsiwleiddio'n well ond.... roedd yn rhaid bod yn gymwys! Fel cymaint o gynigion a glywir mewn hysbysebion, mae yna wastad amodau pellach sy'n egluro pwy yn union sy'n gymwys a phwy sydd ddim. Tybed sawl gwaith yr ydym ni wedi dal ein hunain yn meddwl felly am Dduw? Hynny yw, bod yn rhaid i ni fod yn hyn neu'r llall a byw bywyd cymharol dda cyn profi o ddaioni'r Arglwydd?

Pan ddarllenwn y Beibl, gwelwn y syniadau yma yno hefyd – pobl yn tybio bod modd gwneud eu hunain yn gymwys neu'n addas i Dduw ddangos ffafr tuag atynt. Ond mae Iesu'n gwrthwynebu'r syniadaeth yma'n agored yn Luc 5:31-32. Pan mae'r Phariseaid yn grwgnach bod Iesu'n treulio amser gyda phechaduriaid, mae Iesu yn eu hateb gan ddweud: "Nid ar rai iach, ond ar y cleifion y mae angen meddyg; i alw pechaduriaid i edifeirwch, nid rhai cyfiawn, yr wyf fi wedi dod."

Does 'na ddim gweithred na ffordd o fyw sy'n abl i'n gwneud yn gymwys ar gyfer daioni Duw yn Iesu Grist. Mae'n cyflwr mor ddifrifol nes bod angen i Iesu ei hun gamu i mewn i'n byd, a marw ar groes i'n rhyddhau o afael a dinistr pechod. A bu'n fodlon i wneud y cyfan oherwydd ei gariad rhyfeddol tuag atom. Ac oherwydd y fuddugoliaeth honno ar Galfaria y mae Iesu yn galw pobl i edifarhau ac i dderbyn bywyd newydd trwy ymddiried ynddo Ef.

Ydym ni'n gymwys i dderbyn rhoddion da Duw? Wrth gwrs ein bod, ond nid mewn ffordd gadarnhaol yn sgil ein llwyddiant, ond yn y ffordd y mae claf yn dioddef o haint difrifol yn gymwys i dderbyn y ffisig wnaiff ei wella.

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 15^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 18^{fed} ➤ **Is-bwyllgor Chwiorydd yr Henaduriaeth** – Noson yng nghwmni Dr Nerys Tudor yng Nghapel Henllan am 7.00.
- Iau – 19^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** o 3.15 – 4.30.
➤ **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Ebeneser, Rhuddlan am 6.00.
-
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 25^{ain}
Iau – 26^{ain} ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** o 3.15 – 4.30.
➤ **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod am 7.00 yng Nghapel Ebeneser, Trelawnyd. Cyn delio â'r materion gwaith, bydd Arwel Elis Jones, Caernarfon yn annerch ar y testun: “*Y Beibl ar Roi a Chyfrannu*”.
- Gwener – 27^{ain} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
-
- Sul canlynol – 29^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd y Parch. John Derek Rees yn pregethu.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 9.30 a bydd y casgliad yn mynd tuag at y drychineb enfawr a'r anffodusion yn Barbados. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.45.
- Gwener – 20^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.
- Gwener – 20^{fed} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul (15fed)**, os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.
-
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yn Groes am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 11.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 11.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg.
-
- Sul canlynol – 29^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol yn Llanefydd am 9.30 ac fe weinyddir y cymun.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Henllan am 11.00.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30 a bydd Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 11.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa am 11.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.
- Mercher – 18^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (15^{fed})**, os gwelwch yn dda.
-
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Mawrth – 24^{ain} ➤ Croeso i chi ddod am 'Baned a Sgwrs' yn Ffestri Llansannan o 1.30–3.30.
- Mercher – 25^{ain} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (22^{ain})**, os gwelwch yn dda.
-
- Sul canlynol – 29^{ain} ➤ Bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd y Parch. John Derek Rees yn arwain oedfa yn Llanfair am 11.00.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Saron am 10.00.
-
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Bydd y Parch. R. W. Jones yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn dilyn.
- Bydd y Parch. R. W. Jones hefyd yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
-
- Sul canlynol – 29^{ain} ➤ Bydd Teulu Tan y Graig yn arwain oedfa yn Saron am 10.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (25^{ain}), os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.